# Cofnodion y Grŵp Trawsbleidiol

## Cofnodion y cyfarfod:

| | |
|---|---|
| **Teitl y grŵp trawsbleidiol:** | Grŵp Trawsbleidiol ar Les Anifeiliaid |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 12/07/2022 |
| **Lleoliad:** | Zoom |

## Yn bresennol:

| **Enw:** | **Teitl:** |
|---|---|
| Carolyn Thomas AS | Cadeirydd ac Aelod o'r Senedd ar gyfer Gogledd Cymru |
| Mike Hedges AS | Aelod o'r Senedd ar gyfer Dwyrain Abertawe |
| Dan Rose | Staff Carolyn Thomas AS |
| Yasmin Zahra | Staff Luke Fletcher AS |
| Stephanie Grimshaw | Staff David Rees AS |
| Andy Dunbobbin | Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru |
| Will Morton | League Against Cruel Sports |
| Billie-Jade Thomas | League Against Cruel Sports |
| Jessamy Korotoga | Animal Aid |
| Fiona Pereira | Animal Aid |
| Rob Simkins | Dogs Trust |
| Scott Fryer | Battersea |
| Vanessa Waddon | Hope Rescue |
| Natalie Harney | Naturewatch Foundation |
| Malcolm Eames | Achub Milgwn Cymru |

| | |
|---|---|
| Teresa Amory | Ysbyty Adar Gŵyr |
| Ruth Tingay | Wild Justice |
| Jes Hooper | Badger Trust |
| Rachel Sharp | Ymddiriedolaeth Natur Cymru |

## Ymddiheuriadau:

| **Enw:** | **Teitl:** |
|---|---|
| Luke Fletcher AS | Aelod o'r Senedd ar gyfer Gorllewin De Cymru |
| | |
| | |

## Crynodeb o'r cyfarfod:

1. Croeso a chyflwyniadau

Mae Carolyn Thomas (CT) yn croesawu pawb i'r cyfarfod ac yn rhoi trosolwg byr o ddatblygiadau perthnasol ers cyfarfod diwethaf y grŵp. Yn nodi 200 mlynedd ers Deddf Martin (y darn cyntaf o ddeddfwriaeth lles anifeiliaid i'w gymhwyso i'r DU) ac effeithiau ffliw adar ar adar yng Nghymru tra'n lleisio ei chefnogaeth i ymgyrch Pets as Prizes yr RSPCA.

Mae CT yn gofyn i fynychwyr edrych ar y rhestr o flaenoriaethau a ddosbarthwyd yn dilyn y cyfarfod cyntaf ac i gysylltu â'i thîm gydag unrhyw awgrymiadau a/neu newidiadau pellach. Cafodd cofnodion y cyfarfod blaenorol eu cadarnhau a'u heilio gan Dan Rose (DR). Cytunir ar y cylch gorchwyl drafft heb unrhyw wrthwynebiad. Mae Will Morton (WM) yn awgrymu cyfarfod yn amlach na bob chwarter.

2. Ymchwiliad adar hela Animal Aid

Fiona Pereira (FP) yn rhoi cyflwyniad ar adar hela ac ymchwiliad diweddaraf Animal Aid yn Neuadd Betws. Yn rhoi trosolwg o'r ystadegau allweddol a'r materion lles cysylltiedig, gan gynnwys lladd cywion digroeso. Yn nodi bod cewyll yn darparu dull cost-effeithiol o gadw adar i'r diwydiant saethu a dyma lle mae ffermio ffatri yn cwrdd â helwriaeth. Yn disgrifio sut mae adar yn profi colled plu eithafol oherwydd cael eu cadw yn y cewyll a sut mae cyfrwyau'n cael eu gwisgo i atal anafiadau paru. Yn egluro bod yr adar yn lled-wyllt ac felly byth yn colli eu statws gwyllt.

Mae delweddau'n dangos adar yn gwisgo amwisgoedd pig yn ogystal ag adar wedi'u hanafu, gydag un yn amlwg yn marw ac mewn trallod. Mae hyn yn dangos na chedwir at y safonau a osodwyd gan APHA (Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion), a safonau masnach.

Yna dangosir delweddau o ymchwiliad i Park Farm (Sir y Fflint) lle mae adar yn cael eu cadw mewn cewyll metel yn ystod cyfnodau o dywydd cynnes, er bod y Cod Ymarfer perthnasol yn cynghori na ddylid cadw'r

adar mewn tymereddau eithafol. Mae'r Cod Ymarfer hefyd yn dweud na ddylid defnyddio cewyll moel ond mae'r ymchwiliad wedi canfod eu bod yn dal i wneud hynny.

Mae mwy o adar marw i'w gweld yn y delweddau. Mae FP yn egluro sut y gall y lloriau a ddefnyddir yn y cewyll hyn achosi problemau traed difrifol i'r adar. Yn ailadrodd bod arian trethdalwyr yn cael ei ddefnyddio i gefnogi’r diwydiant adar hela, gyda llawer o sefydliadau wedi derbyn cymorth ariannol yn ystod y pandemig COVID-19. Yn cwestiynu a oes awydd am is-grŵp ar wahân ar adar hela ymhlith y rhai sy’n bresennol. Mae DR yn cwestiynu a allai awdurdodau lleol chwarae rhan mewn diogelu lles adar hela. Mae FP yn egluro nad yw bridio adar hela yn cael ei reoleiddio ar hyn o bryd, sy'n ei gwneud yn anodd i awdurdodau lleol archwilio'r safleoedd hyn.

Mae Rachel Sharp (RS) yn nodi adroddiad Ymddiriedolaeth Natur Cymru ar ryddhau adar hela a'r effaith y gallant ei chael ar ardaloedd cyfagos a rhywogaethau eraill. Yn nodi pryderon ynghylch ffliw adar a sut y gallai carcasau ar ffermydd hela helpu i ledaenu’r clefyd. Mae FP yn cytuno bod carcasau adar yn cael eu gadael allan yn yr awyr agored am gyfnodau hir o amser yn bryder.

Mae Andy Dunbobbin (AD) yn codi'r adolygiad annibynnol i hela yng ngogledd Cymru, sydd bellach yn fyw. Yn cwestiynu a ellid cymryd agwedd debyg mewn perthynas ag adar hela. Mae FP yn sôn am adolygiad blaenorol Defra i gewyll bridio, ond mae'n nodi nad oedd wedi ystyried faint o adar a oedd wedi marw o ganlyniad i gael eu cadw ynddynt.

Mae WM yn codi ymgynghoriad Cyfoeth Naturiol Cymru ar reoleiddio’r broses o ryddhau adar hela yng Nghymru, sy'n fyw tan 22 Awst. Mae CT yn gofyn i bartïon sydd â diddordeb mewn bod yn rhan o is-grŵp ar wahân ar adar hela gysylltu â WM.

3. Rasio milgwn

Mae Vanessa Waddon (VW) yn rhoi trosolwg o’r sesiynau tystiolaeth sydd wedi’u cynnal gan y Pwyllgor Deisebau ers cyfarfod diwethaf y grŵp – un gyda sefydliadau achub (Hope Rescue, Achub Milgwn Cymru ac Almost Home) ac un arall gyda’r diwydiant/Bwrdd Milgwn Prydain Fawr (GBGB).

Yn codi cyfeiriadau diweddar at rasio milgwn yn y Senedd, gyda llawer o’r Aelodau yn lleisio eu pryderon ynghylch lles milgwn yng Nghymru yn ogystal â’u cefnogaeth i waharddiad. Yn y cyfamser galwodd Natasha Asghar AS yn ddiweddar ar GBGB i reoli'r trac yn Ystrad Mynach oherwydd pryderon y gallai gwaharddiad wthio'r gweithgarwch i fod yn ddirgel. Mae VW yn egluro na fyddai hyn yn bosibl oherwydd yr isadeiledd sydd ei angen ar gyfer rasio milgwn.

Yn egluro bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili bellach wedi cynnal chwech o'r wyth adolygiad arfaethedig ar y trac. Roedd pryderon na fyddai'r adolygiadau sy'n weddill yn digwydd yn dilyn awgrymiadau o'r fath gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, ond mae bellach wedi'i gadarnhau y bydd y ddau adolygiad olaf yn mynd rhagddynt fel y cynlluniwyd.

Yn nodi bod dadl ar rasio milgwn ar ddod yn y Senedd yn dilyn deiseb Hope Rescue a gyrhaeddodd dros 35,000 o lofnodion, gan ei gwneud yn un o'r rhai mwyaf llwyddiannus yn hanes y Senedd. Nid yw Lesley Griffiths AS/y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd wedi cael ateb i’r llythyr y mae wedi’i anfon at Dave Barclay (perchennog Valley Greyhounds). Nid yw Gweithgor Milgwn Rhwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru wedi cael ymateb i'w llythyr hwy ychwaith.

Mae cofnodion sydd ar gael yn dangos nad yw'r trac wedi'i werthu eto, er bod sôn ei fod wedi cael ei werthu. Nid oes unrhyw bresenoldeb milfeddygol ar y trac o hyd, ac nid oes unrhyw ddata yn dod oddi yno o ran anafiadau/marwolaethau. Mae pryderon difrifol ynglŷn â diffyg arolygiaeth lles ar y trac ac mae amheuon hefyd a yw’r Cod Ymarfer gwirfoddol yn cael ei ddilyn fel y dylai.

Er bod sôn bod gwelliannau wedi'u gwneud i'r trac, cyhoeddwyd fideo yn dangos milgi wedi'i anafu ar-lein ychydig ddyddiau ar ôl i'r gwelliannau honedig gael eu gwneud. Mae CT yn gofyn pam nad yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cynnal rhagor o ymchwiliadau. Mae VW yn egluro nad yw'r ymchwiliadau yn statudol gan nad oes unrhyw drwyddedu ar waith. Bydd VW yn rhoi gwybod i'r grŵp cyn y ddadl sut y gallant gefnogi orau.

4. Trosolwg o flaenoriaethau

Mae WM yn rhoi trosolwg o'r blaenoriaethau sydd wedi'u codi gan aelodau'r grŵp hyd yma. Mae'r rhain yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i: rasio milgwn, bridio mewn cewyll, maglu, y saith egwyddor ar gyfer rheoli bywyd gwyllt yn foesegol, erledigaeth llygod mawr, y Ddeddf Marchnadoedd Mewnol, rheoleiddio canolfannau achub/ailgartrefu, microsglodynnu ar gyfer cŵn a chathod, gwella rheoliadau bridio cŵn, cymorth i berchnogion anifeiliaid anwes ar incwm isel, teledu cylch cyfyng mewn lladd-dai a chydnabod ymdeimlad anifeiliaid yng nghyfraith Cymru. Bydd WM yn ychwanegu ffliw adar at y rhestr o flaenoriaethau, yn ogystal â rheoleiddio clinigau ffrwythlondeb cŵn.

Mae Natalie Harney (NH) yn rhoi trosolwg o bryderon Naturewatch yn ymwneud â chlinigau ffrwythlondeb cŵn. Mae'r sefydliadau hyn yn aml yn gweld staff heb gymhwyso yn cynnig triniaethau meddygol a ddylai gael eu cyflawni gan bersonél/milfeddygon cymwys yn unig. Mae gan y clinigau hyn hefyd gysylltiadau â'r sector bwyd amrwd a gweithgareddau troseddol. Yn nodi bod llawer o'r sefydliadau hyn wedi agor eu drysau yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf i ateb y galw parhaus am gŵn bach. Yn gofyn i'r grŵp ystyried a ellid sefydlu is-grŵp i edrych ar reoleiddio'r clinigau hyn yng Nghymru.

Oherwydd y nifer fawr o flaenoriaethau amrywiol y gofynnir i'r grŵp eu hystyried, mae Billie-Jade Thomas (BJT) yn awgrymu sefydlu is-grwpiau/'categorïau' fel y gellir grwpio blaenoriaethau tebyg gyda'i gilydd ac y gall y rhai sydd â'r arbenigedd perthnasol edrych arnynt. Yn codi gweithgorau Llywodraeth Cymru sydd eisoes yn edrych ar faterion penodol, megis Sefydliadau Lles Anifeiliaid ac arddangosfeydd anifeiliaid. Gofynnir i hyn gael ei ystyried er mwyn osgoi dyblygu unrhyw waith.

Mae WM yn galw ar yr Aelodau i gysylltu ag ef gydag unrhyw flaenoriaethau ychwanegol a allai fod wedi'u methu.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf:** I'w gadarnhau (Medi/Hydref mae'n debyg)

Camau i'w cymryd:

- Pawb i roi gwybod i CT/WM os oes angen ychwanegu/newid unrhyw beth o ran y rhestr bresennol o flaenoriaethau
- Aelodau sydd â diddordeb mewn sefydlu is-grŵp ar adar hela i gysylltu â WM
- VW i roi gwybod i'r grŵp sut y gallant gefnogi cyn y ddadl ar wahardd rasio milgwn yn y Senedd
- WM i ychwanegu ffliw adar a chlinigau ffrwythlondeb cŵn at y rhestr bresennol o flaenoriaethau
- Pawb i ystyried a hoffent gymryd rhan mewn is-grŵp ar glinigau ffrwythlondeb cŵn
- CT/DR/WM/BJT i ystyried y ffordd orau o sefydlu is-grwpiau/categorïau